

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Eirianwen Martin (Nantglyn) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Brynle. Hyderwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt oll fel teulu yn ystod y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.
- Cofiw'n yn ein gweddïau hefyd am John E. Davies (Peniel) sydd ar hyn o bryd yn bur wael yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofiw'n am ei deulu hefyd a gofynnwn Iddo gysgodi drostynt hwythau. Yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd y mae Gwyn H. Davies (Hiraethog) a Bronwen Williams (Cefn Berain), ac mae Kate Davies (Llansannan), Morfudd Williams (Henllan), a Gwenfyl Williams (Tanyfron) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Mae Beryl Jones (Nantglyn) bellach wedi symud i Gartref Nyrsio Y Bwthyn yn yr Wyddgrug. Gweddïwn y bydd yn profi adferiad a dedwyddwch yno dros yr wythnosau nesaf.

Derbyn yn Aelodau

Dymunwn wybod faint o ieuenctid 15+ sydd â diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Mair cyn diwedd mis Chwefror, os gwelwch yn dda, er mwyn inni gael penderfynu pryd fyddai'r amser gorau i gynnal y sesiynau.

I ddot

- **CLWB CINIO NESAF YNG NGHEFN BERAİN** dydd Gwener, Chwefror 5ed am 12.00.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8-12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 5ed-7fed. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Ionawr 27ain**.
- **CLWB CINIO NESAF YN LLANEFYDD** dydd Gwener, Chwefror 12fed am 11.45.
- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** yn mynd i Noson Ddramau yng Nghapel Bethania, Rhuthun nos Lun, Chwefror 15fed am 7.30. Enwau i Bethan (870374) erbyn **nos Sul, Chwefror 7fed** er mwyn archebu tocynnau.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 19eg-21ain. Yma eto, mae £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Chwefror 5ed**.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Henllan nos Fercher, Mawrth 23ain am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.
- **LLANW** – Mae'r wyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 1af. Mae taflenni gwybodaeth ar gael – holwch Mair am gopi neu ewch i'r wefan www.llanw.org



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24^{ain} Ionawr 2016

Darllenid y Dydd

2 Timotheus 3:14-17
(BCND tud.235 / BCN tud.215)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

“Ewch yn ôl a dweud wrth Ioan beth 'dach chi wedi ei weld a'i glywed” (Luc 7:22) oedd cyngor Iesu i ddisgyblion Ioan Fedyddiwr oedd wedi dod ato i holi ai Iesu oedd yr Un roedden nhw wedi bod yn disgwyl amdano. Mae'r hyn yr ydym wedi ei weld a'i glywed am Iesu'n bwysig iawn i'r ffordd rydan ni'n rhannu'n ffydd.

Beth oedd pobl wedi ei weld a'i glywed yng nghyfnod Iesu? Mae Iesu'n dweud fod y dall yn cael gweld, y clodd yn cerdded, a'r tlodion yn clywed y newyddion da am Dduw yn dod i'w rhyddhau a'u dyrchafu. Dyma sut y medrwn ni fod yn dystion i Iesu hefyd trwy ddweud am ein profiad yn cael gweld gwirioneddau Duw trwy lygaid newydd, sut i bu i ni gloffi, ond ein bod yn dal i gerdded ymlaen mewn ffydd, a bod y newyddion da am ddyfodiad Iesu i'r byd a'i waith achubol yn dal i fod yn fêl i'n clustiau ac yn destun diolchgarwch ac addoliad i ni. Felly, croeso cynnes i oedfaon y dydd a gadewch i ninnau, fel disgyblion Ioan gynt, ddweud wrth ein gilydd ac eraill am yr hyn a 'welsom ac a glywsom' am ein Gwaredwr gogoneddus!

Diolch i Sarah am dynnu ein sylw at Salm 23 yr wythnos ddiwethaf – roedd yn neges amserol iawn i mi ac i chithau rwy'n siŵr. Wrth edrych ar y Beibl i gyd mae'n debyg mai Llyfr y Salmau ydi un o'r llyfrau y byddwn yn troi iddo'n amlach na llawer o'r lleill. Mae 66 llyfr yn y Beibl ond mae'r cyfan wedi eu hysbrydoli gan Ysbryd Duw fel y mae'r llythyr gan Paul at Timotheus yn ei ddweud: “Duw sydd wedi ysbrydoli'r ysgrifau sanctaidd hynny i gyd, ac maen nhw'n dysgu beth sy'n wir i ni, yn cywiro syniadau anghywir, yn dangos beth dŷn ni'n ei wneud o'i le, a'n dysgu ni i fyw yn iawn.” (2 Timotheus 3:16)

Er ein mwyn ni y mae Duw wedi rhoi y Beibl i ni. Mae fel rhiant i ni – yn ein cywiro mewn cariad ac yn dangos i ni sut i fyw – a sut i farw hefyd. Byw a marw 'yng Nghrist' ydi dyhead y Cristion ac mae'r Beibl yn dangos i ni gymaint sydd gan Dduw ar ein cyfer yn 'Nhŷ fy Nhad'. Gwelais ffrind yn yr Ysbyty'r wythnos ddiwetha a'r Beibl ganddo yn agored ar ei wely. Wrth sgwrsio daeth hi'n amlwg ei fod yn darllen 1 Corinthiaid 13 sef pennod fawr 'cariad'. Cariad ydi dechrau a diwedd holl waith Duw ac yn ei gariad mae'n gobaith ni oherwydd, fel y gwyddom o'r Beibl, 'Duw, cariad yw'. Diolch am y Beibl sy'n cadw ein golwg ar y gwirioneddau mawr yma i'n nerthu o ddydd i ddydd.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Darllenid Wythnos Nesaf

Salm 119: 25-32 (BCND tud.560 / BCN tud.512)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 24^{ain}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd y Parch. Dafydd Job yn pregethu.
- Mercher – 27^{ain}
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 28^{ain}
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 29^{ain}
- Bydd **CIC+** (Bl.10 a hŷn) yn mynd ar daith i Goleg y Bala i Aduniad Souled Out.
- Gwener – Sul 29^{ain} – 31^{ain}
- **Aduniad Souled Out (15-19 oed)** yng Ngholeg y Bala. Mae ffurflen gofrestru ar gael ar wefan www.souledoutcymru.net.
- Sul nesaf – 31^{ain}
- **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 24^{ain}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 31^{ain}
- Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn i'r Teulu yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Bydd Oedfa'r Fro yn dod ar daith i Gefn Meiriadog am 6.00. Croeso cynnes i bawb. Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30.

Llansannan

- Sul yma – 24^{ain}
- Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth – 26^{ain}
- Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan am 7.30. Croeso i bob aelod.
- Sul nesaf – 31^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 24^{ain}
- Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 31^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 24^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Saron am 2.00 pryd y bydd Rob ac Einir Davies yn cyflwyno Nedw Ifan i gael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 31^{ain}
- Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 24^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 31^{ain}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 24^{ain}
- Bydd Sarah yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.
- Sul nesaf – 31^{ain}
- Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

Manylion Cyswllt

- Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – ✉ sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.